



Ewch i Ysgolion Iach
yn Feddylol i gael
mwy o adnoddau

Gwasanaeth DARN O'R JIG-SO

Ar ôl y cyfnod clo, efallai y bydd eich disgyblion a staff yn teimlo bod cymuned yr ysgol wedi'i darnio braidd.

Mae'n naturiol, yn yr amgylchiadau, i rai pobl deimlo ychydig yn bryderus ynghylch mynd yn ôl i'r ysgol neu ymdopi â'r newidiadau i drefn arferol yr ysgol.

Dylai'r gwasanaeth a'r pecyn gweithgareddau sy'n cyd-fynd ag ef gynorthwyo'r plant i deimlo ymdeimlad o berthyn ac i ddeall eu lle yn yr ysgol. Y gobaith yw y bydd hyn yn ail-greu teimlad o undod a chymuned ynghyd â bod yn gadarnhaol ynghylch bod yn ôl yn yr ysgol.

Os ydych chi'n cynnal y gwasanaeth hwn yn rhithwir, awgrymw'n ichi dynnu allan yr elfen ryngweithiol o gwestiynau ac atebion.

Cynllun gwasanaeth



Ewch i Ysgolion Iach yn Feddyliol i gael mwy o adnoddau

Y cyfarpar mae eu hangen:

- sgrin gliniadur yn dangos jig-so, er enghraifft hwn o [CBBC](#), neu jig-so wedi'i baratoi gyda'r rhan fwyaf o'r darnau yn eu lleoedd
- [papur gwag, darnau o jig-so o'r pecyn gweithgaredd](#)
- siart droi neu fwrdd i'w glynu arni/arno

Cyfarchwch y plant wrth iddyn nhw ymuno â chi am y gwasanaeth. Rhowch groeso i'r plant yn ôl i'r ysgol, gan dreulio munud neu ddau yn siarad mewn ffordd gadarnhaol am y tymor o'ch blaen. Os nad yw'r gwasanaeth yn un rhithwir, gofynnwch i'r plant am rai o'r hobiau maen nhw wedi bod yn eu mwynhau gartref dros yr haf a'r cyfnod clo.

Dywedwch wrth y plant eich bod wedi bod yn gweithio ar un o'ch hobiau chi a dangoswch y jig-so iddyn nhw (defnyddiwch 'rhannu sgrin' os ydych chi'n ei gynnal yn rhithwir). Gofynnwch i'r plant godi llaw os ydyn nhw'n mwynhau gwneud jig-so, ac os oes amser gofynnwch iddyn nhw pam maen nhw'n ei fwynhau.

Esboniwch eich bod, wrth wneud jig-sos yn ystod y cyfnod clo, wedi sylweddoli bod yr ysgol a'i chymuned o rieni a gofalwyr, gwirfoddolwyr a chynorthwywyr, yn debyg i jig-so. *All unrhyw un ohonoch chi feddwl pam y byddwn i'n credu bod ein hysgol fel jig-so?*

Rhowch amser i'r plant drafod hyn a rhoi rhai atebion. Os nad ydyn nhw'n siŵr, efallai eu promptio trwy ddal i fyny rhai o'r darnau unigol. *Beth allaf i sylwi arno ynghylch pob darn o'r jig-so?*



Mae pob darn yn lliwgar, yn ddiddorol, yn heriol ac yn unigryw gyda'i ymylon sy'n mynd i mewn ac allan, a gwahanol rannau o'r llun arno. Mae gan bob darn o'r jig-so ei le yn y llun a hebdo ni fyddai'r llun yn gyflawn.

Esboniwch fod pob darn o'r jig-so yn debyg i unigolyn gwahanol yn yr ysgol. Mae pob unigolyn yn ein hysgol yn unigryw ac yn wych. Efallai bod gennych liw gwallt gwahanol, neu hoff hobiau gwahanol, neu rolau gwahanol yn yr ysgol. Ond yn yr un modd â'r jig-so, rydym ni i gyd yn ffitio gyda'n gilydd yng nghymuned ein hysgol i'w gwneud yn gyfan.

Gofynnwch i'r plant enwi rhywun yng nghymuned yr ysgol a'i rôl unigryw e.e. y swyddog lles sy'n eich helpu pan rydych chi'n sâl, y cyngor eco sy'n gwneud yn siŵr bod yr ysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy.

Ar gyfer pob syniad, ysgrifennwch neu tynnwch lun ar ddarn o'r jig-so a'i lynu ar y bwrdd. Ceisiwch annog y plant i feddwl am y bobl yng nghymuned ehangach yr ysgol yn ogystal â'r athrawon a myfyrwyr e.e. rhieni a gofalwyr, ceidwad y groesfan, gwirfoddolwyr, hyfforddwyr chwaraeon, mentoriaid dysgu ac ati.

Meddyliau i gloi:

Atgoffwch y plant fod pob un ohonyn nhw hefyd yn unigryw ac yn wych. Mae pob un ohonyn nhw'n dod â rhywbeth arbennig i gymuned yr ysgol gyda'u personoliaeth a'u doniau a hebddyn nhw byddai darn pwysig ar goll o'r ysgol.



DARN O'R JIG-SO

Enw: _____ Dyddiad: _____

